
Electrical Safety First

Arbenigwyr diogelwch trydanol y DU

Diogelwch blancedi trydan

# Cadwch yn ddiogel ac yn gynnes **y gaeaf hwn**



electricalsafetyfirst.org.uk

**Bydd y daflen hon yn eich helpu i gadw'n ddiogel ac yn gynnes yn y gaeaf ac yn lleihau nifer y blancedi trydan peryglus sy'n cael eu defnyddio yng nghartrefi pobl.**

**Argymhellwn eich bod yn dilyn ein camau syml wrth brynu, defnyddio, storio a chael gwared â blanced drydan.**

# Dewis blanced drydan

## Wrth ddewis eich blanced drydan:

## Dylech

- Brynu blanced newydd gan adwerthwr cyfrifol.
- Sicrhau bod marc safon diogelwch y Deyrnas Unedig arni.

## Peidiwch â

- Phrynu blancedi ail law – efallai na fyddant yn ddiogel ac ni allwch fod yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion diogelwch cyfredol.

### Marciau safonau diogelwch y Deyrnas Unedig

Wrth brynu blanced drydan newydd, argymhellwn eich bod yn sicrhau bod marc ardystio trydydd parti ar y flanced a'r deunydd pacio. Bydd hyn yn golygu ei bod wedi cael ei phrofi'n annibynnol a'i bod yn bodloni safonau diogelwch diweddaraf y Deyrnas Unedig ac Ewrop.

**Dyma enghreifftiau o'r marciau ardystio i wylio amdanynt:**

BEAB Approved

KEMA KEUR

# Gwiriadau gweledol rheolaidd

**Cyn i chi roi eich blanced drydan ar y gwely i'w defnyddio dros fisoedd y gaeaf, neilltuwch funud neu ddwy i wirio ei bod yn dal i fod yn ddiogel i'w defnyddio.**

## Dylech brynu blanced newydd yn lle'r hen un os sylwch ar un o'r pethau hyn:

- Y defnydd wedi gwisgo neu dreulio.
- Marciau llosg neu afliwio ar y defnydd.
- Gwifrau yn y golwg neu'n ymwthio drwy'r defnydd.
- Difrod i'r cebl hyblyg rhwng y plwg cyflenwi a'r rheolydd a/neu rhwng y rheolydd a'r flanced.
- Y rheolydd yn gwneud sŵn mwmian pan gaiff ei droi ymlaen a/neu mae'n gwynto.
- Mae'r cysylltydd ar y flanced wedi difrodi neu'n gorboethi.

**Os oes gennych unrhyw amheuon ynglŷn â'ch blanced, argymhellwn eich bod yn cysylltu â'r gwneuthurwr i wirio gyda nhw ei bod yn ddiogel cyn i chi ei defnyddio rhagor.**



# Defnyddio eich blanced drydan

**Wrth ddefnyddio eich blanced drydan:**

## Dylech

- Ddarllen a dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr cyn i chi ei defnyddio.
- Gofio cadw'r cyfarwyddiadau mewn lle diogel fel y gallwch gyfeirio atynt pan fo angen.
- Archwilio eich blanced yn rheolaidd am arwyddion o draul neu ddifrod.
- Ddefnyddio'r flanced at bwrpas bwriadedig y gwneuthurwr yn unig, h.y.
  - Dylai trosflancedi gael eu gosod drosoch yn unig yn y gwely.
  - Dylai isflancedi gael eu gosod oddi tanoch yn unig yn y gwely.
- Wirio cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr i sicrhau bod eich blanced yn addas i'w golchi.
- Pan brynwch flanced, gwneud gwiriad gweledol arni'n gyntaf i sicrhau ei bod yn ddiamhariad a heb unrhyw arwyddion gweladwy o ddifrod a achoswyd wrth ei chludo.
- Gymryd gofal os oes angen i chi newid y ffiws yn y plwg 13 amp: rhaid gosod ffiws 3 amp BS 1362.

## Peidiwch â

- Defnyddio'r flanced pan fydd wedi crychu neu ei phlygu.
- Defnyddio potel ddŵr twym ar yr un pryd â defnyddio eich blanced drydan.
- Chyffwrdd y flanced gyda dwylo neu draed gwlyb.
- Defnyddio'r flanced os yw hi'n wlyb neu'n llaith.
- Gosod neu ddefnyddio pinnau i ddal y flanced yn ei lle ar y gwely.
- Defnyddio isflancedi ar welyau addasadwy – mae perygl y gallai'r flanced neu'r cortyn gael eu dal neu eu crychu, yn y colfachau er enghraifft.
- Defnyddio blanced drydan yng ngwely baban neu berson sydd â chyflwr sy'n eu gwneud yn ansensitif i wres.
- Gadael i blant ifanc ddefnyddio'r flanced oni bai fod y rheolyddion wedi cael eu gosod ymlaen llaw gan riant/gofalwr.
- Gadael i bobl sydd â rheoliaduron y galon ddefnyddio dillad gwely wedi'u cynhesu drwy'r nos.

# Storio eich blanced

**Pan nad ydych yn defnyddio'ch blanced, dylai gael ei storio yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr ac fel a ganlyn:**

## Dylech

- Adael y flanced ar y gwely trwy gydol y flwyddyn neu ei gosod yn fflat ar wely sbâr.
- Adael y flanced i oeri cyn i chi ei phlygu.
- Blygu neu rolio'r flanced yn llac mewn tywel neu fag plastig a'i storio mewn lle oer, sych.

## Peidiwch â

- Defnyddio unrhyw gemegion gwrthwyfynod.
- Gosod eitemau trwm ar ben y flanced pan fydd yn cael ei storio.

# Cael gwared â blancedi'n ddiogel

**Os yw eich blanced yn fwy na deng mlwydd oed, dylech ystyried cael gwared â hi'n ddiogel a phrynu un newydd.**

Wrth gael gwared â'ch blanced drydan, dylech gydymffurfio â deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd dan y Gyfarwyddeb WEEE (Offer Trydan ac Electronig Gwastraff). Mae hyn yn golygu na ddylech gael gwared â blancedi gyda gwastraff domestig cyffredinol.

Dylech fynd â blancedi i gyfleuster ailgylchu sy'n derbyn offer trydan. Gall eich Awdurdod Lleol ddweud wrthych ble mae eich canolfan ailgylchu agosaf.

## Mwy o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth ynghylch diogelwch trydanol ewch i:

**electricalsafetyfirst.org.uk**

Electrical Safety First
Arbenigwyr diogelwch trydanol y DU

Electrical Safety First yw'r elusen yn y Deyrnas Unedig sy'n ymroi i ostwng marwolaethau ac anafiadau a achosir gan ddamweiniau trydanol. Ein nod yw sicrhau y gall pawb yn y Deyrnas Unedig ddefnyddio trydan yn ddiogel.

**electricalsafetyfirst.org.uk**

© Electrical Safety First, 2017

ESC

Electrical Safety First
Uned 331, Metal Box Factory
30 Great Guildford Street
Llundain SE1 0ES

Llinell Gymorth **020 3463 5100**
E-bost **enquiries@electricalsafetyfirst.org.uk**

Elusen Gofrestredig (Cymru a Lloegr) Rhif 257376
(Yr Alban) Rhif SC039990